

Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC)

Enw'r Polisi neu'r Arfer	Strategaeth Twf Economaidd Conwy 2017 - 2027		
Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y Polisi neu'r Arfer	Marianne Jackson, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaeth Datblygu Cymunedol		
Enw'r swyddog (ion) sy'n llenwi'r ffurflen asesu effaith	Caroline Jones, Rheolwr Gwasanaethau Busnes		
Gwasanaeth	Gwasanaeth Datblygu Cymunedol	Dyddiad yr Asesiad	Mai 2017

Llenwyd yr AEC gan:		Cytunwyd ar yr AEC gan y Pennaeth Gwasanaeth:	
Dyddiad	Mehefin 2017	Dyddiad	Mehefin 2017
Enw(au)	Caroline Jones	Enw	Marianne Jackson
Llofnod(ion)		Llofnod	

CAM 1 – Nodwch Brif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Arfer

1. Beth sy'n cael ei asesu? (**Cliciwch ddwywaith ar y bocs a dewiswch 'checked'** i roi croes X)

- Polisiâu neu arferion newydd a diwygiedig
- Trefnau newydd (sy'n addasu arferion darparu gwasanaeth neu gyflogaeth)
- Cynigion adolygu neu ad-drefnu gwasanaeth sy'n effeithio ar y gymuned ac/neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbed
- Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd
- Penderfyniadau yn effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach
- Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig, ee, gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol
- Arall, eglurwch yn y bocs isod :

Amh

2. Beth yw nodau ac amcanion cyffredinol y polisi neu'r arfer?

Bwriad strategaeth Twf Economaidd Conwy yw darparu fframwaith i'r sir, ei busnesau a'i phobl i hybu twf yn ein heconomi a gwneud y mwyaf posib o gyfleoedd economaidd sy'n codi yn y sir ac yn allanol i'r sir. Mae'r Strategaeth yn nodi nifer o'r themâu a'r uchelgeisiau yr ydym eisiau eu cyflawni dros y 10 mlynedd 2017-2027.

3. Pwy mae'r polisi neu'r arfer yn bwriadu ei helpu neu elwa (cyfranogion)?

Yr holl bobl a busnesau sy'n gweithio yn, byw yn a /neu'n ymweld â Sir Conwy.

4. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol neu gymuned gyda buddiannau cyffredin?

- Busnesau Lleol (a'u cynrychiolwyr rhwydwaith),
- Sefydliadau Sector Gwirfoddol,
- Partneriaid y Sector Cyhoeddus,
- Aelodau Etholedig,
- Uwch Reolwyr,
- Llywodraeth Cymru,
- Grŵp Llandrillo Menai,
- Grŵp Sgiliau Cyngor Conwy,
- Atebion Busnes Menter Gymdeithasol,
- Sector Eiddo Masnachol,
- Stadau mawr / tîrfeddianwyr,
- Cyrchfan Conwy,
- Venue Cymru,
- Ffederasiwn Busnesau Bach,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Busnes a Menter,
- Ardal Gwella Busnes Bae Colwyn
- Grŵp Gweithredu Lleol Conwy,
- Betsi Cadwaladr,
- Sector Cartref Gofal
- Llywodraeth Cymru, Adfywio,
- Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Cynrychiolydd Addysg Uwch,
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Addysg
- Cynrychiolydd Dysgu Seiliedig ar Waith, a
- Dinasyddion Conwy.

CAM 2 – Ystyried Gwybodaeth Bresennol a Beth Mae Hyn yn Dweud Wrthyhch

Wrth lenwi'r adran hon, mae angen i chi ystyried os oes gennych wybodaeth ddigonol er mwyn llenwi eich AEC, neu a oes angen i chi gynnal cyfnod ymgysylltu/ymgyngori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r broses AEC yn eich gorchymyn i **gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion a ddiogelir a gyda'r rhai sydd â diddordeb yn y modd rydych yn cyflawni eich swyddogaethau.** Mae'n rhaid i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r arfer y cynhelir Asesiad Effaith Cydraddoldeb arno. Efallai eich bod

eisoes wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar yn benodol ar y polisi neu'r arfer hwn. Efallai bod rhai o swyddogion eraill CBSC wedi gwneud gwaith ymgysylltu a fydd yn berthnasol i'r AEC hwn a gallwch adolygu'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned i ddarganfod pa weithgarwch ymgysylltu sydd wedi digwydd yng Nghonwy a phenderfynu a yw hyn yn berthnasol. Os nad oes unrhyw wybodaeth o'ch ymgysylltu blaenorol yn berthnasol i'r AEC, neu ddim ond ychydig iawn ohono, dylech ystyried gwneud rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch cyfranogion a gyda grwpiau o gynrychiolwyr perthnasol i sicrhau nad ydych chi, heb yn wybod i chi, yn anwybyddu anghenion pob grŵp a ddiogelir.

5. Beth ydych chi eisoes yn gwybod am yr effaith ar bob nodwedd a ddiogelir o'ch profiad o'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol neu ymgysylltu neu ymgynghori blaenorol? Gallech gyfeirio at y Ffurflen Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol a'r Gronfa Ddata Cynnwys y Gymuned.

Grŵp a Ddiogelir	Perthnasedd y polisi / arfer fesul nodwedd a ddiogelwyd
Hil	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 95.4% o boblogaeth y sir yn Wyn Prydeinig, mae 2.3% yn wyn ond ddim yn Brydeinig ac mae 2.3% yn hil gymysg neu'n grŵp ethnig arall. • Cafodd 54.4% o'r boblogaeth yn y sir eu geni yng Nghymru, a 4.3% o'r boblogaeth yng Nghonwy eu geni y tu allan i'r DU. • Mae 47.6% o'r preswylwyr ym Mwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried eu hunain yn Gymry, o'i gymharu â 65.8% yng Nghymru. • Nid yw 5.8% o'r holl blant sy'n cael eu haddysgu yn ysgolion Conwy yn wyn Prydeinig. • Mae 'Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru 2014' yn dweud bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn parhau i wynebu rhwystrau, megis: efallai y bydd rhyw y meddyg teulu yn cynrychioli rhwystr i bobl Sipsi neu Deithiwr; gall rhwystrau iaith ymysg rhai pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig eu rhwystro rhag deall y cyngor iechyd y maent yn ei dderbyn. • Yn 2013/14 hysbyswyd yr heddlu ynglŷn â 1,809 o droseddau casineb yng Nghymru, ac o'r rhain roedd 1,368 (76%) yn droseddau casineb hiliol. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p>

	<p>Mae gennym adborth nad yw pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig bob amser yn gwybod pa wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod nac yn deall sut i gael mynediad i wasanaethau penodol. Efallai bod gan bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ofynion diwylliannol penodol y mae angen i ni eu hystyried wrth ddarparu gwybodaeth a chyflwyno gwasanaeth (Strategaeth Gyfathrebu).</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gallai'r strategaeth gael effaith wahaniaethol ar grwpiau hiliol a bydd yn annog prosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried y dull mwyaf priodol o gyrraedd yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
Anabledd	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae gan 24.2% o boblogaeth Conwy afiechyd hir dymor sy'n eu cyfyngu. Mae hyn yn golygu y gall hyd at chwarter ein cwsmeriaid fod â gofynion penodol yn ymwneud â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. • Roedd gan 21.2% o'r boblogaeth (yn ôl arolwg blynyddol y boblogaeth 15/16) anabledd sy'n eu cyfyngu o ran gwaith. • Yn ystadegol mae pobl anabl yn fwy tebygol o gael eu cynnwys ar restr fer am swydd ond yn llai tebygol o gael cynnig swydd. • Bu'n rhaid i 23% o bobl anabl wrthod swydd o ganlyniad i ddiffyg trafndiaeth hygyrch. • Yn 2013/14 hysbyswyd yr heddlu ynglŷn â 1,809 o droseddau casineb yng Nghymru, ac o'r rhain roedd 122 (8%) yn droseddau casineb hiliol. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <p>Rydym wedi cael adborth yn gofyn i gynllunwyr a dylunwyr gael gwell dealltwriaeth o'r anghenion o ran mynediad a bod rhwystrau corfforol yn parhau ar gyfer pobl gyda nam ar eu golwg (Cynllun Datblygu Lleol)</p> <p>Mae'r rhwystrau yn cynnwys darpariaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain, iaith (ar wahân i Gymraeg neu Saesneg) a darpariaeth ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg. (Strategaeth Gyfathrebu)</p> <p>Pwysleisiwyd hefyd nad yw staff bob amser yn deall y rhwystrau i gael mynediad i wybodaeth e.e. pobl fyddar. (Strategaeth Gyfathrebu)</p> <p>Codwyd peth pryder ynghylch y diffyg cyflogaeth briodol i bobl ag anableddau (datblygu Sgiliau)</p>

	<p>Nid ydym yn ymwybodol y gallai'r strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i anabledd (neu oherwydd bod rhywbeth yn codi o anabledd e.e. gofalwyr neu ddibynyddion) a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
<p>Rhyw</p>	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 51.4% o'r boblogaeth yn y wlad yn ferched, y rheswm yn bennaf yw am fod merched yn byw yn hwy na dynion. • Mae dynion yn llai tebygol na merched o ddefnyddio ystod o wasanaethau iechyd. • Mae cyfraddau gweithgarwch corfforol yn is ar gyfer merched a genethod (23%) na dynion a bechgyn (38%). • Mae dynion yn fwy tebygol na merched o fod dros eu pwysau neu'n ordew (61% o ddynion o'i gymharu â 54% o ferched). • Mae cyfraddau yfed alcohol (mwy na'r canllawiau dyddiol a argymhellir) yn uwch ar gyfer dynion na merched (46% o ddynion o'i gymharu â 35% o ferched). • Yn 2015/16 cyrhaeddodd 53% o fechgyn Lefel 2 yn y pynciau craidd (A* - C TGAU) o'i gymharu â 59.2% o ferched. • Mae merched yn cyfeirio at fwlio fel celwyddau neu sibrydion ac yn amlach na pheidio mae hyn yn ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <p>Roedd pobl yn credu fod yna fwllch cyflog o hyd (yn bennaf mewn perthynas â rhyw, ond hefyd ar draws y nodweddion eraill a ddiogelir yn ogystal), ac mae angen mwy o ffocws wrth fynd i'r afael â'r bwllch yma. (Cynllun Cydraddoldeb Strategol)</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gallai'r strategaeth hon gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i ryw unigolyn a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>

Oed

Ystadegau Cyffredinol

- Mae gan y sir y gyfran uchaf o boblogaeth oedrannus yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer pobl 85 oed a hŷn - 4% yng Nghonwy o'i gymharu â 2.6% yng Nghymru.
- Bydd y % o'r bobl hŷn sy'n byw yng Nghonwy yn cynyddu gan olygu y bydd mwy o bwyslais ar faterion yn ymwneud â mynediad. Erbyn 2039, rhagwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn yn cynyddu ym Mwrdeistref Sirol Conwy o 35% i 41,600. Bydd hyn yn 35.2% o'r boblogaeth yng Nghonwy.
- Mae 67% o'r gweithlu o dan 50 (hr)
- Mae'r amcangyfrifon ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy yn dangos bwlch mawr yn y strwythur oed rhwng yr oedrannau o gwmpas 18 i 40.
- Os bydd tueddiadau'r gorffennol yn parhau, erbyn 2039 rhagwelir bydd y rhai dan 25 oed, yn ffurfio dim ond 25% o'r boblogaeth (y ganran o'r rhai dan 25 ar hyn o bryd yw = 27%).
- Mae plant mewn grwpiau hŷn yn llai tebygol o fod yn gorfforol egniol.
- Mae plant o gefndiroedd mwy breintiedig yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol.
- Mae pobl hŷn yn tueddu i chwarae rhan allweddol yn cefnogi a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol, sydd yn eu tro'n dod â chymunedau a theuluoedd ynghyd.
- Mae nifer yr achosion o gyflyrau iechyd hirdymor yn cynyddu gydag oedran, ac mae cyflyrau o'r fath yn ffurfio oddeutu 70% o wariant iechyd a gofal cymdeithasol.

Adborth o'r ymgysylltu

Fe ganolbwyntiodd ymatebion ymgysylltu ar yr angen i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc a fydd yn eu galluogi i greu gyrfaoedd yn lleol, nid o amgylch swyddi rhan-amser, tymhorol yn unig. (Sgiliau)

Teimlai pobl y gallai fod yna ffyrdd o gysylltu pobl iau'n gwirfoddoli gyda chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn gan ennill profiad gwaith. (Sgiliau)

Mae cadw pobl ifanc o fewn ein hardal yn fater pwysig, wrth i'r rhagolygon ar gyfer y boblogaeth ym Mwrdeistref Sirol Conwy ddangos bwlch mawr yn y strwythur oed rhwng yr oedrannau o tua 18 i 40. Dyma'r grŵp oed sydd fwyaf tebygol o fod yn symudol yn economaidd a chymdeithasol, gan chwilio am waith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal. Mae'n rhaid i nifer o bobl ifanc adael yr ardal ar gyfer addysg uwch ac er nad yw hyn yn broblem ynddo'i hun, mae'r methiant i'w denu yn ôl i'r ardal ar ôl graddio yn arwain at anghydbwysedd cenedlaeth. Mae amrywiaeth o

	<p>resymau posibl ar gyfer y duedd hon, ond dangosodd ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda myfyrwyr Prifysgol Bangor yn 2010 mai diffyg cyfleoedd cyflogaeth lleol oedd un o'r prif faterion. Gall diffyg tai addas a fforddiadwy fod yn ffactor mawr hefyd. Ac wrth benderfynu ble i ymgartrefu, mae pobl ifanc fel arfer yn chwilio am fwy na swydd yn unig; maent eisiau byw mewn lle sy'n cyfateb i'w ffordd o fyw hefyd (Asesiad Lles).</p> <p>Gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i oed unigolyn wrth i ni geisio ehangu sylfaen economaidd y sir e.e.:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gobeithir y bydd denu Prif Swyddfeydd nid yn unig yn gwella lefelau cyflog ond hefyd yn denu graddedigion yn ôl i'r wlad; - bydd denu prif swyddfa newydd i'r ardal yn denu a chadw myfyrwyr; a - bydd gwella ansawdd cyflogaeth yn y sector Twristiaeth a Hamdden yn cynyddu cyfleoedd llawn amser ac yn helpu i ddarparu llwybrau/strwythurau gyrfa mwy eglur ar gyfer gweithwyr.
Crefydd a Chred	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae 64.7% o'r bobl sy'n byw yng Nghonwy yn Gristnogion. • Rhwng 2001 a 2011 bu gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n nodi eu bod yn Gristnogion a chynnydd yn y rhai sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw grefydd. • Ar y cyfan, mae nifer yr unigolion gyda chrefydd heblaw Cristnogaeth wedi dyblu bron rhwng 2001 a 2011 o 950 i 1,700 neu 1.5% o'r boblogaeth yng Nghonwy. O fewn y nifer hwn, Mwslemiaid oedd y grŵp crefyddol mwyaf gyda 0.5% o'r boblogaeth yn y ddwy ardal. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p>

	<p>Nid oes adborth o fewn y maes hwn.</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth hon gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i grefydd neu gred a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
<p>Tueddfryd Rhywiol</p>	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes data dibynadwy am faint y boblogaeth hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol yn y DU. • Ond yn ôl Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth 2015, mae 95% o bobl Cymru yn nodi eu bod yn heterorywiol gan roi amcangyfrifiad mai dim ond 2% o'r boblogaeth sy'n Hoyw/Lesbiaid/Deurywiol neu arall. • Mae 'Adolygiad o'r dystiolaeth ar anghydraddoldeb o ran Mynediad at Wasanaethau Iechyd yng Nghymru 2014' yn dweud bod pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol anabl yn sôn am ofnau o ragfarn neu gamdriniaeth. • Mae ymchwil Stonewall hefyd wedi canfod gwahaniaethau sylweddol rhwng anghenion iechyd pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol ac anghenion iechyd pobl heterorywiol. O'i gymharu â phobl heterorywiol, mae mwy o ferched lesbiaidd a deurywiol wedi hunan-niweidio, roedd dynion hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o gamddefnyddio cyffuriau yn amlach, ac nid oedd unigolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol hŷn yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau iechyd sydd eu hangen arnynt. Nid ydym yn ymwybodol y gallai'r strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i grefydd neu gred a byddwn yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <p>Nid oes adborth o fewn y maes hwn.</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i dueddfryd rhywiol</p>

	<p>a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
Ail-alinio Rhyw	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes data ar gael am bobl sy'n drawsryweddol ar lefel awdurdodau unedol nac ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <p>Nid oes adborth o fewn y maes hwn.</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i ailbennu rhywedd a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
Priodas a Phartneriaeth Sifil	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am bobl sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes adborth yn y maes hwn. <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i briodas neu Bartneriaeth Sifil a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i</p>

	ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am bobl yn y grŵp hwn a gaiff ei amddiffyn. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes adborth yn y maes hwn. <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i Feichiogrwydd a Mamolaeth a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
Y Gymraeg	<p>Ystadegau Cyffredinol</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ôl yr Arolwg Poblogaeth Blyneddol (2015), mae tua 36% o'r boblogaeth 3 mlwydd oed ac hŷn yn siaradwyr Cymraeg - sy'n sylweddol uwch na ffigur Cymru gyfan sef 27%. <p>Adborth o'r ymgysylltu</p> <p>Roedd pobl yn teimlo bod angen i ni gymryd agwedd wahanol at y Gymraeg yn yr ysgolion er mwyn i bobl ifanc ddysgu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol, nid i lwyddo mewn arholiadau yn unig. (Strategaeth yr Iaith Gymraeg)</p> <p>Hefyd mae angen i ni sicrhau fod llefydd digonol mewn ysgolion lleol lle gellir dysgu plant drwy gyfrwng y Gymraeg. (Rhaglen Moderneiddio Ysgolion)</p> <p>Roedd pobl yn teimlo hefyd fod angen gwell cynlluniau darllen arnom ar gyfer dysgwyr Cymraeg a mwy o gefnogaeth i rieni sy'n siarad Saesneg ac yn dymuno cefnogi eu plant yn yr ysgolion Cymraeg. (Strategaeth Iaith Gymraeg Addysg)</p> <p>Teimlwyd hefyd tra'i bod yn bwysig darparu gwasanaethau dwyieithog, mae angen cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth Gymraeg a recriwtio effeithiol. (Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Safonau'r Iaith Gymraeg)</p>

	<p>Pwysleisiodd pobl hefyd fod angen gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, ac nid dim ond gwasanaethau cyfieithu Saesneg a Chymraeg ac y dylai gynnwys iaith Arwyddo Prydain ac ieithoedd eraill. (The Big Word, Strategaeth Gyfathrebu)</p> <p>Roedd cadw hunaniaeth ddiwylliannol a'r iaith Gymraeg o fewn cymunedau hefyd yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol a nodwyd drwy'r ymgynghoriad. Roedd pobl yn bryderus y gallai gorddatblygu o fewn y trefi a'r cymunedau gael effaith negyddol ar ddiwylliant a'r iaith yng Nghonwy. Teimlwyd hefyd fod angen cydbwysu darpariaeth y gwasanaethau iaith Gymraeg gyda recriwtio effeithiol (Aseiad Lles Conwy a Sir Ddinbych)</p> <p>Nid ydym yn ymwybodol y gall y strategaeth gael effaith wahaniaethol o ganlyniad i'r iaith Gymraeg a bydd yn annog unrhyw brosiectau yr ymgymrir â nhw fel rhan o'r strategaeth i ystyried anghenion yr holl grwpiau gaiff eu hamddiffyn.</p>
Arall (nodwch)	Amh

6. Crynhowch y data atodol perthnasol, ymchwil a'r wybodaeth rheoli perfformiad sydd eisoes gennych:

Data / Gwybodaeth	Esiamplau
--------------------------	------------------

<p>Adborth ar gyfer: Strategaeth Gyfathrebu; Cynllun Datblygu Lleol; Datblygu Sgiliau; Cynllun Cydraddoldeb Strategol; ‘The Big Word’; Safonau'r Iaith Gymraeg; Aseiad Lles Conwy a Sir Ddinbych;</p>	<p>Sgrinio AEC Cychwynnol Cwynion Canmoliaeth Data Defnyddwyr Gwasanaeth Atborth Defnyddwyr Gwasanaeth Arolygon neu Archwiliadau</p>
<p>Ymchwil neu Wybodaeth Gymharol</p>	<p>Esiamplau</p>
<p>Aseiad Lles Conwy a Sir Ddinbych – yr hyn ddywedodd pobl: Byddai pobl yn hoffi gweld cyfleoedd cyflogaeth a busnes a allai greu ffyniant, darparu mynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol ac a fyddai'n cadw neu'n denu pobl ifanc i fyw yn yr ardal. Byddai pobl yn hoffi gweld: Swyddi o well ansawdd gyda chyflogau uwch Cwmnïau'n "rhoi rhywbeth yn ôl" i'r gymuned Cydraddoldeb mewn cyflogaeth, yn arbennig o ran cyflogau Cefnogaeth i fusnesau lleol gyda threthi a rhenti is a gwell telerau prydlesu Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg amrediad amrywiol o gyfleoedd swyddi y tu allan i'r sectorau twristiaeth a lletygarwch, a'r ffaith fod nifer o swyddi'n rhai tymhorol. Hefyd roedd pobl yn teimlo fod angen mwy o gyfleoedd swyddi ar gyfer y rhai gydag anableddau. Teimlai'r rhai ymatebodd i'r ymgynghoriad hefyd y gellid gwneud mwy i gefnogi sectorau allweddol fel Amaeth ac Iechyd.</p>	<p>Arolygon Defnyddwyr Gwasanaeth Astudiaethau gan adrannau'r Llywodraeth neu gyrff proffesiynol Data'r Cyfrifiad Prosiectau ac ymchwil ar sail gwasanaeth Pa mor deg yw Cymru (data'r EHRC)</p>

7. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i Ymgysylltu fel y disgrifiwyd ar ddechrau'r adran hon ac ydych chi'n ddigon gwybodus i fwrw ymlaen?

Ydw



Nac ydw



(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Os Ydych, ewch ymlaen i Gam 3

Os Nac ydych, efallai yr hoffech ystyried cael saib nŵan er mwyn gwneud eich gweithgarwch ymgysylltu (a dylech eu hychwanegu i'ch cynllun gweithredu - Cam 6). Dylech ymgorffori unrhyw wybodaeth a gawsoch o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocs isod a nodi beth oedd y canfyddiadau allweddol:

CAM 3 – Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cyffredinol y sector cyhoeddus yn golygu bod angen i bob awdurdod cyhoeddus ystyried anghenion gwahanol grwpiau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd hon hefyd yn berthnasol i sefydliadau sector cyhoeddus sy'n darparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan ac mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny'n arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod ein trefniadau caffael a monitro'n cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol.

8. A yw'r polisi neu'r arfer hwn i'w gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan contractwyr mewn partneriaeth â sefydliad(au) arall/eraill?

Ydi Nac ydi (*rhoch groes fel sy'n briodol X*) Os Na, ewch ymlaen i Gam 4

9. Os Ydi, sut byddwch chi'n cydymffurfio â Deddfwriaeth Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a'r Iaith Gymraeg? Meddyliwch am:

Caffael

- Gosod disgwyliadau clir o ran cydraddoldeb yn y dogfennau Tendro a Manylebau
- Ar be seiliwyd eich penderfyniadau yn y broses ddyfarnu
- Bod cymalau'r contract yn cynnwys gofynion cydraddoldeb deddfwriaethol
- Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth

Partneriaethau

Pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r iaith Gymraeg

Nid oes proses dendro ffurfiol wedi bod o ran datblygiad y Strategaeth Twf Economaidd gan fod CBSC yn ymgymryd â'r gwaith.

Er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau economaidd a amlinellir yn y strategaeth, bydd yn hanfodol i CBSC weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill. Lle mae prosiectau ar y cyd sy'n cynnwys nifer o sefydliadau, bydd yn bwysig dod i gytundeb gyda sefydliadau partner sydd yn gyfrifol am elfennau penodol, e.e. Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb, adrodd ar gamau gweithredu, ac ati.

CAM 4 – Aseu'r Effaith

10. Oes unrhyw dystiolaeth o ddefnydd neu fodlonrwydd uwch neu is gan unrhyw grŵp(iau), ac os felly, sut gaiff hyn ei egluro?

Ar yr adeg hon fe fydd yn rhy gynnar i adrodd unrhyw beth, ond wrth i'r uchelgeisiau gael eu datblygu fe fyddwn yn cofnodi a sicrhau tystiolaeth. Rydym yn rhagweld y bydd y strategaeth yn helpu i liniaru ymfudiad talent ifanc o'r Sir drwy ddenu myfyrwyr newydd i'r ardal.

11. Yw daearyddiaeth neu ddemograffeg unrhyw grŵp yn datgelu unrhyw beth?

Na

12. Yw unrhyw reolau neu ofynion neu'r modd y cyflawnir polisi neu arfer yn atal unrhyw grwpiau rhag defnyddio neu gael mynediad, neu'n gostwng tebygolrwydd hynny, neu a oes unrhyw rwystrau eraill yn cael eu creu iddynt?

Ee: yn sgil incwm cyfyngedig, lleoliad, amser darparu, mynediad i adeiladau, gwybodaeth neu iaith, rheolau cymhwysu, cod gwisg, materion diwylliannol

Bydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r strategaeth yn argymhell, mewn mwy o fanylion, y camau sydd eu hangen i wireddu'r pum uchelgais. O ganlyniad i hyn, bydd prosiectau'n cael eu datblygu ac, yn ystod y cam hwn, bydd angen Aseuadau penodol o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

13. A ellir cyfiawnhau unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn ar sail gwella cyfleoedd cyfartal neu feithrin perthnasau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd a ddiogelir a'r rhai nad ydynt yn gwneud?

Dim wedi ei nodi

14. A yw unrhyw un o'r cyfyngiadau hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon?

Ydi Nac ydi Ddim yn siŵr
(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Os mai eich ateb yw Ydi neu Ddim yn siŵr, nodwch ar y tabl isod, pa grŵp(iau) a ddiogelir y mae'n berthnasol iddynt ac os yw'n bosibl egluro pam (gan gynnwys effaith neu effeithiau tebygol y newid bwriedig hwn):

Hil	Grwpiau Leiafrif Ethnig Du Sipsiwn / Teithwyr Iaith
Anabledd	Symudedd Deheurwydd Dall neu nam ar y golwg Byddar neu nam ar y clyw Iechyd Meddwl Anableddau Dysgu
Rhyw	Dynion Merched
Oed	Pobl Hŷn Plant Pobl Ifanc
Crefydd a Chred	Cymunedau ffydd
Tueddfryd Rhywiol	Hoyw Lesbiad Deurywiol Heterorywiol
Ail-alinio Rhywedd	Unigolyn sy'n bwriadu, yn dechrau neu wedi newid ei rywedd neu ei rhywedd
Priodas a Phartneriaeth Sifil	

Beichiogrwydd a Mamolaeth	
Hawliau Dynol	Hawl i Addysg, Bywyd Preifat a Theuluol, Diogelu eiddo, ac ati
Cymunedau Cymraeg eu Iaith	
Grwpiau neu gymunedau eraill wedi'u heithrio yn gymdeithasol (nodwch)	

15. Os mai Na oedd eich ateb i Gwestiwn 14, a yw'r rhwystrau a'r cyfyngiadau yn gyfystyr â thriniaeth wahaniaethol i grwpiau penodol?

Ydynt Nac ydynt Ddim yn siŵr
(rhowch groes fel sy'n briodol X)

16. Os mai eich ateb i Gwestiwn 15 oedd Ydynt neu Ddim yn siŵr, rhowch fanylion yn y bocs isod ac eglurwch pam

Gellir ystyried yr uchelgais i sefydlu presenoldeb Addysg Uwch yn y Sir fel rhywbeth fydd o fantais i bobl ifanc Conwy.

17. Oes digon o wybodaeth gennych i wneud penderfyniad gwybodus?

Oes Nac oes **(rhowch groes fel sy'n briodol X)**

Os mai eich ateb oedd Oes, cyfiawnhewch hyn:

Mae'r asesiad o les wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau penodol i gefnogi Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae trafodaethau rheolaidd wedi bod gyda Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chynnwys ac ansawdd yr Asesiad o Les i sicrhau fod y dadansoddiad yn gadarn ac felly mae unrhyw flaenoriaethau allweddol wedi eu seilio ar farn wybodus.

Mae'r broses o ddatblygu'r blaenoriaethau'n adlewyrchu'r 5 ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fe wnaed hynny mewn dull cynhwysol drwy drafodaeth gydag Aelod a Phenaethiaid Gwasanaeth.

Hefyd gyda chymorth Llais y Gymuned, fe siaradom gyda bron i 30 o grwpiau cymunedol, yn ymwneud ag amryw o ddi-ddordebau cymunedol mewn amrywiaeth o leoliadau trefol a gwledig. Hefyd aethom ati i gyfathrebu drwy Aelodau Etholedig CBS Conwy a'r Cynghorau Tref a Chymuned i annog cyfranogiad lleol. Hefyd aethom ati i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo Sgwrs y Sir o fewn grwpiau cymunedol a gwirfoddol, rhwydweithiau busnes, ein partneriaid statudol a staff a rhoi'r diweddaraf i bobl am y sylwadau yr oeddem yn eu derbyn. Datblygwyd gwefan benodol hefyd i alluogi pobl i gwblhau'r holiadur ar-lein. Cawsom tua 500 o ymatebion i Sgwrs y Sir.

Os mai eich ateb oedd Nac oes, pa wybodaeth ydych chi angen am grwpiau a ddiogelir?

Amh

18. Oes modd cael yr wybodaeth sydd angen yn sydyn ac yn hawdd, neu a ddylid cynnwys casglu data yn y cynllun gweithredu? Rhowch y manylion isod:

Mae'r asesiad lles wedi'i gyhoeddi ar wefan.

<http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/home/english-wellbeing-assessment/>

CAM 5 – Delio ag Effaith Niweidiol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Arfer

Yn yr adran hon, byddwch yn ystyried a oes unrhyw fesurau i leihau neu ddileu unrhyw effaith negyddol. Dylech hefyd archwilio dulliau eraill o gyflawni'r un nod ac / neu ddulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau.

19. Pa fesurau fedrwch chi eu cyflwyno i'r polisi neu'r arfer a allai leihau neu ddileu unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?

Wrth i brosiectau penodol gael eu datblygu a'u rhoi mewn grym o ganlyniad i'r strategaeth, gall prosiectau unigol gael effaith niweidiol ar grwpiau gwahanol a gaiff eu hamddiffyn. Felly mae'n bwysig fod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar wahân yn cael ei wneud ar gyfer pob prosiect yn y cyfnod datblygu.

20. Pa fesurau a ellid eu cynnwys i gryfhau'r polisi/arfer a meithrin perthnasau da a gweithredu cyfleoedd cyfartal?

21. Pa gamau allech chi eu cymryd i gyflawni'r un nod drwy ddull gwahanol?

Amh

CAM 6 – Cynllun Gweithredu

Amlinellwch isod y camau y byddwch yn eu cymryd i fwrw ymlaen â'ch cynnig. Gallai'r rhain gynnwys cyflawni gweithgarwch Ymgysylltu/Cynnwys, casglu data Cydraddoldeb lle nad yw hyn ar gael yn rhwydd helpu gyda'r AEC hwn, cynnal dadansoddiad data o'r data a geir yn y dyfodol i fonitro effaith y polisi / arfer hwn yn barhaus, unrhyw gamau sydd angen i chi eu cymryd i sicrhau bod caffael yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, unrhyw drefniadau sydd angen i chi eu rhoi ar waith i fonitro ac adolygu effaith y polisi / arfer hwn yn y dyfodol, ac yn y blaen.

Cam Gweithredu	Mesur Llwyddiant	Amserlen	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Camau i'w cymryd cyn y gellir cwblhau'r polisi/arfer				
Mae'r strategaeth wedi ei chefnogi gan y Cabinet blaenorol ond y bwriad yw ei chyflwyno i'r cabinet newydd			Rheolwr/Arweinydd Prosiect	
Camau ar ôl cwblhau'r AEC a'r polisi / arfer				
Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'w gwblhau ar lefel prosiect			Rheolwr/Arweinydd Prosiect	

--	--	--	--	--

CAM 7 – Penderfyniad i Fwrw Ymlaen

22. Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i chasglu yng nghamau 1 - 5 uchod, nodwch ar y tabl isod a fedrwch chi fwrw ymlaen â'r polisi neu'r arfer ac os gallwch chi, ar ba sail?

(rhowch groes fel sy'n briodol X)

Penderfyniad		Cam Gweithredu
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ar ei ffurf bresennol	Cwblhau'r adain Monitro ac Adolygu (Cam 8) i sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd
<input checked="" type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i'w wella	Cwblhau'r adrannau Cynllun Gweithredu a Monitro ac Adolygu (Camau 6 ac 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Gellir	Parhau â'r polisi neu'r arfer ond gydag addasiadau i ddileu unrhyw feysydd lle byddai effaith negyddol a nodwyd yng Ngham 5	Cwblhau Cynllun Gweithredu (Cam 6) i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle mae effaith negyddol a Monitro ac Adolygu (Cam 8) i asesu'r effaith yn barhaus
<input type="checkbox"/> Na ellir	Rhoi'r gorau i'r polisi neu'r arfer hwn gan nad yw'n bosibl mynd i'r afael â'r effaith negyddol, ac ystyried ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r materion	Cwblhau Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn deillio o roi'r gorau i'r polisi a delio â'r effaith negyddol a ddynodwyd

CAM 8 – Trefniadau ar gyfer Monitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae proses yr AEC yn un barhaus, ac nid yw'n dod i ben pan gytunir ar bolisi / arfer a phan gytunir ar AEC a'i gyflwyno. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith polisiâu/arferion o ran cydraddoldeb yn barhaus i nodi a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno'r polisi neu'r arfer newydd hwn.

23. Amlinellwch pa drefniadau y byddwch yn eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r arfer hwn:

Trefniadau Monitro ac Adolygu (gan gynnwys ble bydd canlyniadau'n cael eu cofnodi)	Amserlen ac Amllder	Cyfrifoldeb Arweiniol	Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)
Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'w gwblhau ar lefel prosiect	Amh	Rheolwr/Swyddog Prosiect Arweiniol	
Byddwn yn sefydlu 'Bwrdd Twf Economaidd Sir Conwy' newydd a fydd yn monitro uchelgeisiau/allbynnau. Bydd unrhyw adrannau mesuradwy o'r Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Twf Economaidd.	I'w benderfynu		

CAM 9 - Cyhoeddi'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Trefnwch i'ch Pennaeth Gwasanaeth gytuno ar yr AEC ar ôl ei gwblhau, gweler y Polisi AEC yn ymwneud â chyhoeddi trefniadau cyhoeddi ac anfon copi yn ôl at y Swyddog AD a Chydraddoldeb.